

# Llyfrynnau Aberystwyth i Blant

**A**nodd gennyf wrthod apêl hen lyfrynnau bychain yn Gymraeg, onibai bod llyfrwerthwr yn codi crochris amdanynt. Roedd gweisg Llanrwst a Chaernarfon yn nodedig am y fath gynnyrch diflanedig, a'r enwocaf (a'r mwyaf prin) ohonynt yw'r gyfres o bump a chyhoeddwyd gan John Jones, Llanrwst, i wobrwyo plant Ysgolion Sul. Ni chyhoeddwyd dim byd arall yn Gymraeg gyn lleied ei maint, ac eto mae'r gwaith yn ddestlus ac yn ddarllenadwy. Nid oes dyddiad arnynt, ond rwy'n tybio eu bod yn perthyn i'r 1840au.

Yn ddiweddar cefais gyfle i brynu bwndel o lyfrynnau, un ar ddeg ohonynt, a chyhoeddwyd yn Aberystwyth, a hynny am bris rhesymol! Heblaw un, roeddynt i gyd yn gynnyrch gwasg Philip Williams, Heol y Bont, rhwng 1859 ac 1885. Mae eu maint yn amrywio ryw fymryn, ond pedair modfedd a hanner wrth dair yw'r fformat, megis, a phob un ond un yn 16 tudalen. Maent i gyd ond un gyda phlygell bapur lliw fel rhwymiad. Mae un clawr yn bapur glas plaen, mae'r gweddill mewn lliwiau amrywiol gyda'r teitl, coloffon ac ati yn rhyngfathol ar y clawr ag sydd ar y wyneb-dalen. Pris pob un oedd ceiniog, heblaw un.

Nid yw'r rhestr isod ond dynnid ymhlith nifer a ddaeth o weisg Aberystwyth; ar glawr cefn *Dyrchafiad y Morwr Ifanc*, ceir hysbyseb

'Llyfrau Addas i Blant', gan gynnwys rhai o'r teitlau isod, a theitlau ceiniog eraill: *Hanes Solomon ar gân; Rhodd Brawd; Hanes y Tri Llanc yn Babilon; Holwyddoreg ar enedigaeth Crist; Prynwch Cherries eich Hunan; Beibl y Meddwyn*. Tybed a oes copïau o'r rhain ar glawr o hyd?

Dyma'r rhai sydd gennyf:

*Catechism Byr ar Y Tabernacl a'i Swyddogion*, gan John Rees. Aberystwyth: Argraffwyd gan John Morgan, 1, North Parade.

*Emynau i Blant y Diwygiad. Gan y Parch. Joseph Jones, Ffosyffin*. Aberystwyth: argraffwyd gan P. Williams. 1859.

*Holiadau ac Atebion ar Hanes Jeroboam, yn nghyd ag Addysgiadau Oddiwriho i Blant Bychain yr Ysgol Sabbathol*. Gan David Rees, Bronnant. Aberystwyth: Argraffwyd gan Philip Williams. 1866.


*Mynegai i'r Testament Newydd. "Chwiliwch yr Ysgrythrau."* Argraffwyd gan Philip Williams, Heol y Bont, Aberystwyth. 1869.

*Dyrchafiad y Morwr Ieuanc; neu, pa fodd y daeth Jack Small yn mlaen yn y byd*. Wedi ei gyfieithu gan y Parch. W. Williams. (Gwilym ab Gwilym Lleyn.) Aberystwyth: Argraffwyd gan Philip Williams. 1870.

*Holiadau ac Atebion ar Hanes Moses*, gan J.H.Hughes, Yspytty Ifan. Aberystwyth: Argraffwyd gan Philip Williams. 1874.

*Y Cyfaill Dirwestol; sef Dadl ar Lwrymwrthodiad a Chymedroldeb*. Gan Edward Evans, (Llwyd y Graig). Aberystwyth: Argraffwyd gan Philip Williams. 1874.

*Rhodd Mam i'w Phlentyn; yn cynwys y Catechism Cyntaf i Blant Bychain*, gyda'r *Cyfeiriadau a'r Adnodaau*. Aberystwyth: Argraffwyd a chyhoeddwyd gan Philip Williams, 12, Heol y Bont. 1878 [28 tudalen; dwy geiniog].



Wyneb-ddalen : *Dyrchafiad y Morwr Ieuanc* (1870)

*Holiadau ac Atebion ar Hanes Moses*, gan J. H.Hughes, Yspytty Ifan. Ail Argraffiad. Aberystwyth, Argraffwyd gan Philip Williams. 1885.

*Holwyddoreg ar Hanes Arch y Cyfamod, i blant yr Ysgol Sabbathol*. Gan y Parch. David Rees, Bronnant, Sir Aberteifi. Aberystwyth: Argraffwyd gan Philip Williams. 1886.

*Holwyddoreg i Egluro Dyben ac Amcan yr Ordinhad o Swper yr Arglwyd, er mwyn Dwyn deall y Bobl Ieuanc yn fwy goleu at y mater difrifol hwn*. Gan y Parch. David Rees, Bronnant, Swydd Aberteifi. 1886. Aberystwyth: Argraffwyd gan Philip Williams. 1886. Ail Argraffiad.

Gerald Morgan

**PORTMEIRION**  
www.pentre.com

**CASTELL DEUDRAETH - BWYD A GWIN DAU GWRS  
AM £13.50 YN CYNNWYS MYNEDIAD I'R PENTREF  
01766 772400**

**GWESTY PORTMEIRION CINIO 3 CHWRS O £17.50  
01766 772440**